Rhaid i'r Asesiad Risg Teithio gael ei gwblhau gan rywun sy'n teithio dramor i gyflawni gwaith y Brifysgol fel y'i diffinnir gan y Polisi Teithio, a rhaid ei gwblhau ar y cyd â'r Polisi Teithio. Rhaid llenwi pob adran, a rhaid cyflwyno'r ffurflen i'r aelod staff perthnasol sy'n ei chymeradwyo. Wedi hynny, rhaid anfon y ffurflen i travel@aber.ac.uk er mwyn trefnu yswiriant teithio. Mae angen i'ch Cyfadran neu'ch Adran gadw copi o'r ffurflen a lenwyd fel y gellir cyfeirio ati os bydd argyfwng.

***Sicrhewch fod eich manylion personol, gan gynnwys eich manylion cyswllt a manylion eich perthynas agosaf, wedi'u diweddaru ar eich cofnod staff neu fyfyriwr cyn teithio.***

**Manylion Teithio**

| | | |
|---|---|---|
| Enw'r Teithiwr | | |
| Cyfadran/Adran | | |
| Cyfeiriad E-bost | | |
| Rhif Staff/Myfyriwr | | |
| Enw'r Rheolwr Llinell / Arolygwr | | |
| Dogfennau Cysylltiedig: (I'w cadw gan y Gyfadran/Adran) | Gwybodaeth am y sawl sy'n teithio (gan gynnwys manylion cyswllt brys) ☐<br>Cynllun cyfathrebu a manylion y daith (gan gynnwys y manylion hedfan/llety) ☐ | |
| Dyddiad(au) Teithio | *Gadael:* | |
| | *Dychwelyd:* | |
| Diben y daith, gan gynnwys gwybodaeth am sut y bydd y teithiwr/y Brifysgol yn cael budd ohoni | | |

**Asesiad Risg**

| Y Peryglon a'r Mesurau Lliniaru | Y Mesurau Lliniaru sydd ar waith | | | Pwy all gael niwed, sut y gallan nhw gael eu niweidio? Y Mesurau Lliniaru y dylid eu Gweithredu / Rhagor o Wybodaeth |
|---|---|---|---|---|
| | Ydy/Oes/Do | Nac ydy/Nac oes/Naddo | Nid yw'n berthnasol | |
| **Diogelwch Personol a Diogeledd** | | | | |
| A yw'r Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu wedi cynghori pobl i beidio â theithio i'r rhanbarth(au), **oni bai bod hynny'n hanfodol?** | ☐ | ☐ | ☐ | |
| Mae cyngor y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu a Crisis 24 ar deithio wedi'i ystyried, a bydd y teithiwr yn dilyn y cyngor hwnnw bob amser. | ☐ | ☐ | ☐ | |
| A oes unrhyw beryglon penodol o ran terfysgaeth: troseddu; gwrthdaro; aflonyddwch? | ☐ | ☐ | ☐ | |
| **Cyfreithiau ac Arferion** | | | | |
| Mae'r teithiwr yn deall y cyfreithiau a'r arferion lleol, a bydd yn eu parchu. | ☐ | ☐ | ☐ | |
| Mae'r teithiwr yn deall y cod gwisg, a bydd yn glynu wrth y cod hwnnw. | ☐ | ☐ | ☐ | |
| Mae'r teithiwr yn deall ac yn parchu defodau crefyddol. | ☐ | ☐ | ☐ | |
| **Dim Digon o Arian** | | | | |
| Mae'r teithiwr wedi sicrhau bod ganddo ddigon o arian cyfred lleol tra ei fod yn teithio, ac mae wedi sicrhau bod ganddo ddigon o arian wrth gefn hefyd. | ☐ | ☐ | ☐ | |
| Mae'r teithiwr wedi sicrhau y gall ddefnyddio'i gerdyn credyd yn y wlad/rhanbarth, ac mae wedi sicrhau y gall godi arian o'r peiriannau arian. | ☐ | ☐ | ☐ | |
| | | | | |

| Y Peryglon a'r Mesurau Lliniaru | Y Mesurau Lliniaru sydd ar waith | | | Pwy all gael niwed, sut y gallan nhw gael eu niweidio? Y Mesurau Lliniaru y dylid eu Gweithredu / Rhagor o Wybodaeth |
|---|---|---|---|---|
| | Ydy/Oes/Do | Nac ydy/Nac oes/Naddo | Nid yw'n berthnasol | |
| **Cyflyrau Meddygol/Iechyd** | | | | |
| Nid yw'r teithiwr yn dioddef o gyflyrau meddygol y gŵyr amdanynt, na chyflyrau sydd arno eisoes, a allai effeithio ar ei allu a'i addasrwydd i deithio. | ☐ | ☐ | ☐ | |
| Nid yw'r wlad yn cael ei hystyried un beryglus o ran epidemigau, ac ati. | ☐ | ☐ | ☐ | |
| Ystyriwyd safonau hylendid megis hylendid dŵr yfed a hylendid siopau/stondinau gwerthu bwyd (e.e. yfed dŵr potel yn unig) | ☐ | ☐ | ☐ | |
| Ystyriwyd y gofynion mynediad o ran meddyginiaeth, ac mae'r teithiwr wedi mynd i'r afael â'r gofynion hyn. | ☐ | ☐ | ☐ | |
| Mae gan y teithiwr ddigon o feddyginiaeth bresgripsiwn a meddyginiaeth arall ar gyfer y daith, ynghyd â llythyr oddi wrth y meddyg teulu sy'n cyfiawnhau'r math hwn o feddyginiaeth a faint ohono y dylai fynd ag ef. | ☐ | ☐ | ☐ | |
| Mae'r teithiwr yn gwybod lle mae'r cymorth meddygol agosaf. | ☐ | ☐ | ☐ | |
| **Ystyriaethau Amgylcheddol** | | | | |
| A yw'r teithiwr wedi ymchwilio i risgiau o ran gweithgarwch amgylcheddol, gan gynnwys gweithgarwch seismig, stormydd a digwyddiadau hinsawdd? | ☐ | ☐ | ☐ | |
| A yw hwn yn lle anghysbell? | ☐ | ☐ | ☐ | |
| A oes unrhyw risgiau y dylid eu hystyried o ran uchder? | ☐ | ☐ | ☐ | |
| A oes yna unrhyw risgiau a grëwyd gan bobl y dylid eu hystyried? | ☐ | ☐ | ☐ | |

| Y Peryglon a'r Mesurau Lliniaru | Y Mesurau Lliniaru sydd ar waith | | | Pwy all gael niwed, sut y gallan nhw gael eu niweidio? Y Mesurau Lliniaru y dylid eu Gweithredu / Rhagor o Wybodaeth |
| --- | --- | --- | --- | --- |
| | Ydy/Oes/Do | Nac ydy/Nac oes/Naddo | Nid yw'n berthnasol | |
| **Llety** | | | | |
| A yw safonau iechyd a diogelwch y llety wedi'u gwirio? | ☐ | ☐ | ☐ | |
| A yw safonau hylendid y llety wedi'u gwirio? | ☐ | ☐ | ☐ | |
| A yw'r safonau diogelwch tân wedi'u gwirio? | ☐ | ☐ | ☐ | |
| A fydd y drysau'n cael eu cloi yn y nos a phan fyddwch i ffwrdd yn ystod y dydd, a byddwch yn parhau i fod yn wyliadwrus wrth gyrraedd a gadael yr adeilad ac wrth ichi agor eich drws i bobl? | ☐ | ☐ | ☐ | |
| **Isadeiledd** | | | | |
| Mae'r ddarpariaeth drafnidiaeth, a safonau'r ddarpariaeth honno, yn dderbyniol (h.y. maent yn cyfateb i safonau'r Deyrnas Unedig), ac mae'r teithiwr yn eu deall. Hefyd, ni fydd mathau o drafnidiaeth yr ystyrir eu bod yn anniogel yn cael eu defnyddio, gan gynnwys meysydd awyr a theithiau awyren anniogel. | ☐ | ☐ | ☐ | |
| Mae safonau'r cyfleustodau yn dderbyniol. | ☐ | ☐ | ☐ | |
| A oes bygythiadau o ran Diogelwch Seiber? | ☐ | ☐ | ☐ | |
| Ydych chi wedi gwirio y bydd eich ffôn symudol yn gweithio a bod crwydro data ar gael | ☐ | ☐ | ☒ | |

| Y Peryglon a'r Mesurau Lliniaru | Y Mesurau Lliniaru sydd ar waith | | | Pwy all gael niwed, sut y gallan nhw gael eu niweidio? Y Mesurau Lliniaru y dylid eu Gweithredu / Rhagor o Wybodaeth |
|---|---|---|---|---|
| | Ydy/Oes/Do | Nac ydy/Nac oes/Naddo | Nid yw'n berthnasol | |
| **Gwleidyddol** | | | | |
| Mae hwn yn rhanbarth sefydlog o ran ei wleidyddiaeth. | ☐ | ☐ | ☐ | |
| Mae bregusrwydd y rhanbarth wedi'i asesu, ac ystyriwyd y risgiau. | ☐ | ☐ | ☐ | |

**Datganiad a Llofnod**

***Wrth lofnodi'r datganiad hwn, mae'r teithiwr yn cadarnhau bod yr wybodaeth a roddwyd yn gywir hyd eithaf ei wybodaeth a, lle bo hynny'n ofynnol, bydd unrhyw newidiadau y bydd angen eu gwneud i'r ffurflen ar ôl ei llofnodi yn digwydd cyn i'r aelod staff gychwyn ar ei daith.***

| | |
|---|---|
| Enw Teithiwr (LLYTHRENNAU BRAS) | |
| Llofnod | |
| Dyddiad | |

***Wrth lofnodi'r datganiad hwn, mae'r sawl sy'n cymeradwyo'r cais yn cadarnhau ei fod wedi adolygu'r wybodaeth a roddwyd a bod y peryglon a nodwyd wedi cael sylw a'u lleihau cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol i ganiatáu i'r aelod staff deithio. Cyfeiriwch at y Polisi Teithio i gael rhagor o arweiniad ar lefel swydd y sawl sy'n cymeradwyo'r ffurflen.***

***Rheolwr Llinell / Dirprwy Is-ganghellor y Gyfadran / Pennaeth Adran (fel y'i diffinnir yn y Polisi Teithio)***

| | |
|---|---|
| Enw'r Sawl sy'n Cymeradwyo (LLYTHRENNAU BRAS) | |
| Llofnod | |
| Dyddiad | |

***Ysgrifennydd PA (os yw'n berthnasol fel y'i diffinnir yn y Polisi Teithio)***

| | |
|---|---|
| Enw'r Sawl sy'n Cymeradwyo (LLYTHRENNAU BRAS) | |
| Llofnod | |
| Dyddiad | |

**Lefelau cymeradwyo**

- Cymeradwyaeth i deithio i wledydd risg dibwys/isel – **Rheolwr Llinell**
- Cymeradwyaeth i deithio i wledydd risg cymedrol/uchel (3.0 neu uwch) - **Dirprwy Is-Ganghellor y Gyfadran/Pennaeth Adran**

- Cymeradwyaeth i deithio i wledydd risg uchel/eithriadol o uchel (4.0 neu uwch) - **Dirprwy Is-Ganghellor y Gyfadran/Ysgrifennydd y Brifysgol**